Department for Environment Food & Rural Affairs

# Ymgynghoriad ar Ymestyn Dyddiadau Cau Cyflwyno Cofrestriadau Trosiannol Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) y DU

14 Gorffennaf 2025

Adran yr Amgylchedd, Amaeth a Materion Gwledig (DEFRA) ydym ni. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn:

REACHextension@defra.gov.uk

Cynnwys

Rhagair ... 3

Rhan 1 - Cyflwyniad ... 5

Cyflwyniad ... 5

Pwrpas yr ymgynghoriad ... 6

Opsiynau Polisi ... 7

Cynulleidfa ... 11

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ... 11

Hyd ... 11

Rhan 2 - Cwestiynau'r ymgynghoriad ... 14

Cyfrinachedd a rhai manylion amdanoch chi ... 14

Cwestiynau am yr Opsiynau Polisi ... 16

Ymestyn y dyddiadau cau ar gyfer dewis 20% o'r ffeiliau at ddiben gwirio cydymffurfiad o dan Erthygl 41(5) o REACH y DU ... 17

## Rhagair

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar gynigion y llywodraeth i ymestyn dyddiadau cau cyflwyno cofrestriadau trosiannol Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) y DU. Y dyddiadau cau presennol yw

mis Hydref 2026, mis Hydref 2028 a mis Hydref 2030. Cyflwynir y terfynau amser hyn fesul cam, yn ôl tunelledd a phroffiliau peryglon y sylweddau sy'n cael eu cofrestru.

Dan REACH y DU, mae'n rhaid i fusnesau gofrestru gwybodaeth am y sylweddau cemegol sy'n cael eu rhoi ar y farchnad ym Mhrydain Fawr gydag Asiantaeth REACH y DU (yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, HSE). Pan adawodd y DU yr UE, ni chafodd gwybodaeth am y sylweddau sydd ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, a oedd wedi'u cofrestru gyda REACH y DU, ei throsglwyddo i'r HSE. Mae'r sylweddau dan sylw wedi aros ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, ond mae angen cofrestru'r wybodaeth hon o hyd gyda REACH y DU.

Bydd model cofrestru trosiannol amgen REACH y DU (ATRm) yn nodi beth mae'r gofynion cofrestru gwybodaeth hyn yn ei olygu. Roedd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Mai 2024 a mis Gorffennaf 2024 yn nodi rhai cynigion, a oedd wedi cael eu datblygu o dan weinyddiaeth flaenorol y llywodraeth gan Defra, yr HSE ac Asiantaeth yr Amgylchedd (EA). Mae'r llywodraeth bresennol, mewn cydweithrediad â'r llywodraethau Datganoledig yng Nghymru a'r Alban, yn ystyried y camau nesaf. Gan fod dyluniad manwl yr ATRm yn dal i gael ei adolygu, ni allwn gadarnhau ar hyn o bryd yn union pa wybodaeth y bydd yn rhaid i'r diwydiant ei darparu erbyn y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl na fydd y gofynion gwybodaeth terfynol yn mynd y tu hwnt i'r rhai a amlinellwyd yn ymgynghoriad ATRm 2024.

O ystyried yr ystyriaethau parhaus hyn, ni fydd yn bosibl mwyach i gyflawni'r newidiadau deddfwriaethol i weithredu ATRm cyn y dyddiad cau presennol ar gyfer cyflwyno am y tro cyntaf ym mis Hydref 2026, ynghyd â chyfnod pontio addas.

O ganlyniad, mae angen ymgynghori ar ddyddiadau cau diwygiedig ar gyfer cyflwyno ceisiadau trosiannol, sy'n rhoi digon o amser i'r llywodraeth gwblhau'r ATRm ac i'r diwydiant baratoi i gydymffurfio.

Y dyddiadau cau newydd arfaethedig sy'n destun ymgynghoriad yw:

- **Opsiwn 1:** Mis Hydref 2029, mis Hydref 2030, mis Hydref 2031
- **Opsiwn 2:** Mis Ebrill 2029, mis Ebrill 2031, mis Ebrill 2033
- **Opsiwn 3:** Mis Ebrill 2029, mis Ebrill 2030, mis Ebrill 2031

Opsiwn 1 yw'r opsiwn y mae'r llywodraeth yn ei ffafrio, gan ei fod yn rhoi amser i gwblhau'r gwaith o ddylunio a gweithredu'r ATRm, ac mae'n rhoi cyfnod pontio o tua dwy flynedd i'r diwydiant.

Byddai symud o fwlch o ddwy flynedd i fwlch o flwyddyn rhwng dyddiadau cau yn rhoi digon o amser i'r diwydiant gasglu a chyflwyno gwybodaeth, gan reoli'r cyfnod cyffredinol cyn i'r rheoleiddwyr gael data cofrestru cyflawn.

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn ceisio barn ar gynnig y llywodraeth i ymestyn y dyddiadau ar gyfer y gofyniad ar HSE i gynnal gwiriadau cydymffurfio ar 20% o'r ffeiliau cofrestru a dderbyniwyd. Mae hyn yn berthnasol o dan Erthygl 41(5) o Reoliad

REACH y DU. Ar hyn o bryd, mae'r ddyletswydd hon yn alinio â'r dyddiadau cau presennol ar gyfer cyflwyno.

## Rhan 1 - Cyflwyniad

## Cyflwyniad

1. Rheoliad Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) y DU[1] yw un o'r prif ddarnau o ddeddfwriaeth ar gyfer rheoleiddio cemegau ym Mhrydain Fawr, a ddisodlodd REACH yr UE[2] ym Mhrydain Fawr o 31 Rhagfyr 2020 (dyddiad ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE)). Sefydlodd weithdrefn REACH y DU, sy'n rheoleiddio'r gweithgynhyrchu, rhoi ar y farchnad a'r defnydd o sylweddau ym Mhrydain Fawr. Mae REACH yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.[3]

2. Mae REACH y DU yn mynnu bod sylweddau sy'n cael eu gweithgynhyrchu ym Mhrydain Fawr, neu sy'n cael eu mewnforio, yn cael eu cofrestru gydag Asiantaeth REACH y DU (yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)). Mae data cofrestru yn darparu gwybodaeth hanfodol am beryglon, defnyddiau ac amlygiad posibl sylweddau.

3. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi awdurdodau'r DU i gyflawni eu swyddogaethau rheoleiddio'n effeithiol. Mae'n cefnogi'r rheini sy'n cofrestru i benderfynu ar fesurau rheoli risg priodol ar gyfer eu gweithrediadau eu hunain, ac ar gyfer defnyddwyr eraill i lawr y gadwyn gyflenwi.

4. Mewn perthynas â sylweddau a oedd wedi cael eu cofrestru'n flaenorol gyda REACH yr UE, ac sydd bellach angen cael eu cofrestru gyda REACH y DU, yn 2019 pennwyd un dyddiad cau, sef mis Hydref 2021, i gychwyn ar gyfer cwblhau'r broses gofrestru drosiannol. Cafodd hyn ei ddisodli'n ddiweddarach yn 2020 gan ddull gweithredu fesul cam, gyda therfynau amser newydd[4] ym mis Hydref 2023, mis Hydref 2025 a mis Hydref 2027, yn dibynnu ar fandiau tunelledd a phroffil peryglon sylweddau.

5. Mewn ymateb i bryderon rhanddeiliaid ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â chaffael y data sydd ei angen ar gyfer y cofrestriadau hyn o dan REACH y DU, cafodd y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno cofrestriadau trosiannol eu hymestyn[5] yn 2023 i roi amser i'r llywodraeth ddatblygu model cofrestru trosiannol amgen (ATRm), i ddeddfu ar gyfer y model cofrestru newydd hwn, ac i roi cyfnod pontio o ddwy flynedd i'r diwydiant.

6. Nod yr ATRm yw lleihau'r costau i fusnesau o bontio o REACH yr UE i REACH y DU, gan sicrhau lefel uchel o ddiogelwch ar gyfer iechyd pobl a'r amgylchedd. Mae'r dyddiadau cau presennol ar gyfer cwblhau'r broses gofrestru drosiannol hon wedi'u hamlinellu yn Nhabl 1.

---

[1] Rheoliad (EC) Rhif 1907/2006.
[2] EUR 2006/1907
[3] O dan Fframwaith Windsor
[4] Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020
[5] Rheoliadau REACH (Diwygio) 2023 Erthygl 127P

**Tabl 1**: Dyddiadau cau presennol

| Dyddiad Cau Presennol | Tunelledd | Priodweddau Peryglus |
|---|---|---|
| 27 Hydref 2026 | 1,000 tunnell neu fwy y flwyddyn | • Carsinogenaidd, mwtagenig neu wenwynig ar gyfer atgynhyrchu (CMRs) - 1 tunnell neu fwy y flwyddyn<br>• Gwenwynig iawn i organebau dyfrol (acíwt neu gronig) - 100 tunnell neu fwy y flwyddyn<br>• Rhestr ymgeiswyr - Sylweddau sy'n Peri Pryder Mawr Iawn (SVHC) |
| 27 Hydref 2028 | 100 tunnell neu fwy y flwyddyn | Rhestr ymgeiswyr SVHC |
| 27 Hydref 2030 | 1 tunnell neu fwy y flwyddyn | Amherthnasol |

7. Roedd *ymgynghoriad ATRm 2024* yn gofyn am safbwyntiau ar fodel ATRm arfaethedig. Er bod hyn yn dal i gael ei ystyried, rydym yn disgwyl na fydd y gofynion cofrestru trosiannol terfynol yn fwy na'r rhai a amlinellir yn yr ymgynghoriad.

8. Gan fod y dyddiad cau cyntaf ar gyfer cofrestru trosiannol yn codi ym mis Hydref 2026, h.y. mewn llai na dwy flynedd, ac o ystyried yr angen am gyfnod pontio addas ar ôl i'r ddeddfwriaeth ATRm gael ei gwneud, mae angen i ni newid y dyddiadau cau presennol ar gyfer cofrestru trosiannol.

9. Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys cynnig i ymestyn yr amserlenni deddfwriaethol i'r HSE gynnal gwiriadau cydymffurfio ar 20% o ffeiliau cofrestru, fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 41 o Reoliad REACH y DU. Rhaid addasu'r amserlenni hyn yn unol â'r dyddiadau cau diwygiedig ar gyfer cyflwyno cofrestriadau trosiannol.

## Pwrpas yr ymgynghoriad

10. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am farn rhanddeiliaid ar gynigion y llywodraeth i ymestyn dyddiadau cau cyflwyno cofrestriadau trosiannol REACH y DU. Mae pedwar opsiwn yn cael eu hystyried, gan gynnwys opsiwn gwneud dim byd. Yn ogystal, ceisir safbwyntiau ar gynnig y llywodraeth i ymestyn y dyddiadau ar gyfer gofyniad deddfwriaethol yr HSE i gynnal gwiriadau cydymffurfio ar 20% o ffeiliau cofrestru, fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 41(5) o Reoliad REACH y DU. Ar hyn o bryd, mae'r ddyletswydd hon yn alinio â'r dyddiadau cau presennol ar gyfer cyflwyno.

11. Mae esboniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gysondeb y diwygiadau arfaethedig ag Erthygl 1 Rheoliad REACH y DU ('Datganiad Cysondeb Erthygl 1') yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

## Opsiynau Polisi

12. Mae'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ac sy'n destun yr ymgynghoriad hwn, wedi'u rhestru yn Nhabl 2:

**Tabl 2:** Opsiynau ar gyfer dyddiadau cau cyflwyno data

| Dyddiad Cau Presennol (opsiwn gwneud dim byd) | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Tunelledd | Priodweddau Peryglus |
|---|---|---|---|---|---|
| 27 Hydref 2026 | 27 Hydref 2029 | 27 Ebrill 2029 | 27 Ebrill 2029 | 1,000 tunnell neu fwy y flwyddyn | Carsinogenaidd, mwtagenig neu wenwynig i'w atgynhyrchu (CMRs) - 1 tunnell neu fwy y flwyddyn.<br>Gwenwynig iawn i organebau dyfrol (acíwt neu gronig) - 100 tunnell neu fwy y flwyddyn.<br>Rhestr ymgeiswyr o sylweddau SVHC[6] |
| 27 Hydref 2028 | 27 Hydref 2030 | Ebrill 2031 | Ebrill 2030 | 100 tunnell neu fwy y flwyddyn | Rhestr ymgeiswyr o sylweddau SVHC |
| 27 Hydref 2030 | 27 Hydref 2031 | Ebrill 2033 | Ebrill 2031 | 1 tunnell neu fwy y flwyddyn | |

## Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd

13. **Gwneud Dim** - nid yw'r opsiwn hwn yn gofyn am unrhyw newid i'r dyddiadau cau presennol ar gyfer cyflwyno, sef 27 Hydref 2026, 27 Hydref 2028, a 27 Hydref 2030.

14. Os na chymerir unrhyw gamau, bydd y dyddiad cau cyntaf, sef 27 Hydref 2026, naill ai'n digwydd cyn i'r llywodraeth gwblhau a deddfu ar gyfer yr ATRm, neu bydd yn digwydd yn fuan wedyn. Byddai hyn yn golygu y gallai cwmnïau ddechrau buddsoddi mewn caffael y data sydd ei angen i fodloni'r gofynion deddfwriaethol presennol, y gellid ystyried eu bod yn ddiangen o dan y meini prawf a bennir gan ATRm. Fel arall, gallai olygu bod cwmnïau'n aros i'r gofynion ATRm gael eu cyhoeddi ac yna'n ceisio cydymffurfio â'r gofynion hynny, ond gyda chyfnod pontio cywasgedig iawn.

15. **Opsiwn 1** – Symud y dyddiad cau cyntaf ar gyfer cyflwyno 3 blynedd i 27 Hydref 2029, yr ail 2 flynedd i fis Hydref 2030 a'r trydydd 1 flwyddyn i fis Hydref 2031.

[6] SVHC wedi'i nodi yn unol ag Erthygl 59 Rheoliad REACH y DU

**Opsiwn 1 yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio**, a ddangosir yn Nhabl 3 isod.

**Tabl 3**: Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno cofrestriadau yn y DU o dan Opsiwn 1

| Dyddiad Cau Presennol | Opsiwn 1 | Tunelledd | Priodweddau Peryglus |
|---|---|---|---|
| 27 Hydref 2026 | 27 Hydref 2029<br>(+3+ mlynedd) | 1,000 tunnell neu fwy y flwyddyn | • Carsinogenaidd, mwtagenig neu wenwynig ar gyfer atgynhyrchu (CMRs) - 1 tunnell neu fwy y flwyddyn<br>• Gwenwynig iawn i organebau dyfrol (acíwt neu gronig) - 100 tunnell neu fwy y flwyddyn<br>• Sylweddau SVHC ar y rhestr ymgeiswyr cyn 27 Hydref 2029 |
| 27 Hydref 2028 | 27 Hydref 2030<br>(+2+ mlynedd) | 100 tunnell neu fwy y flwyddyn | • Sylweddau SVHC ar y rhestr ymgeiswyr cyn 27 Hydref 2030 |
| 27 Hydref 2030 | 27 Hydref 2031<br>(+1+ mlynedd) | 1 tunnell neu fwy y flwyddyn | |

16. Symud y dyddiad cau cyntaf ar gyfer cyflwyno yn ôl 3 blynedd yw'r opsiwn mwyaf realistig i roi amser i'r llywodraeth gwblhau a gweithredu ATRm, a rhoi digon o amser i fusnesau gydymffurfio ag ef, yn enwedig y rheini sy'n ddarostyngedig i'r dyddiad cau cyntaf.

17. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn lleihau'r cyfnodau rhwng dyddiadau cau o ddwy flynedd i flwyddyn. Byddai bwlch o un flwyddyn rhwng dyddiadau cau yn rhoi digon o amser i'r diwydiant gasglu a chyflwyno gwybodaeth, gan reoli'r cyfnod cyffredinol cyn i'r rheoleiddwyr gael data cofrestru cyflawn. Dyma'r cyfnod pan na fyddai'n rhaid i gwmnïau arddangos eu bod yn deall y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r sylweddau maen nhw'n eu gweithgynhyrchu neu'n eu rhoi ar y farchnad, gyda'i botensial i gynyddu'r risg i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi amser i'r HSE reoli'r gwaith o wirio cydymffurfiad o dan yr ATRm sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

18. Ystyrir bod cyfnodau byrrach o flwyddyn yn briodol, gan mai bwriad yr ATRm, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yw lleihau'r baich gwybodaeth ar y diwydiant yn sylweddol o'i gymharu â gofynion cofrestru presennol REACH y DU. Ar ben hynny, y rhesymeg wreiddiol dros y cyfnodau hirach o ddwy flynedd oedd caniatáu amser i ddiwydiant drafod mynediad

at ddata sy'n cael ei ddal gan yr UE. Mae'r ATRm sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn cynnig dileu'r angen hwn.

19. **Opsiwn 2** - Symud y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ar gyfer pob band tunelledd yn ôl dwy flynedd a hanner, i 27 Ebrill 2029, 28 Ebrill 2031 a 27 Ebrill 2033.

Byddai Opsiwn 2 yn symud yr holl ddyddiadau cau ar gyfer cyflwyno yn ôl 2 flynedd a hanner, fel y dangosir yn Nhabl 4, isod, a byddai'n cadw'r bylchau presennol o ddwy flynedd rhwng y dyddiadau cau ar gyfer cofrestru.

**Tabl 4:** Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno cofrestriadau yn y DU o dan Opsiwn 2

| Dyddiad Cau Presennol | Opsiwn 2 | Tunelledd | Priodweddau Peryglus |
|---|---|---|---|
| 27 Hydref 2026 | 27 Ebrill 2029 (+2 flynedd a hanner) | 1,000 tunnell neu fwy y flwyddyn | • Carsinogenaidd, mwtagenig neu wenwynig ar gyfer atgynhyrchu (CMRs) - 1 tunnell neu fwy y flwyddyn<br>• Gwenwynig iawn i organebau dyfrol (acíwt neu gronig) - 100 tunnell neu fwy y flwyddyn<br>• Sylweddau SVHC ar y rhestr ymgeiswyr cyn 27 Ebrill 2029 |
| 27 Hydref 2028 | 28 Ebrill 2031 (+2 flynedd a | 100 tunnell neu fwy y flwyddyn | • Sylweddau SVHC ar y rhestr ymgeiswyr cyn 28 Ebrill 2031 |
| 27 Hydref 2030 | 27 Ebrill 2033 (+2 flynedd a hanner) | 1 tunnell neu fwy y flwyddyn | |

20. Yn yr un modd ag Opsiwn 1, byddai'r opsiwn hwn yn rhoi amser i'r llywodraeth gyflwyno'r ATRm, a byddai'n rhoi digon o amser i'r rheini sy'n ddarostyngedig i'r dyddiad cau cyntaf yn benodol gydymffurfio ag ef. Mae'n tybio y byddai angen cyfnod pontio o lai na dwy flynedd ar y nifer cymharol fach o gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r dyddiad cau cyntaf er mwyn cydymffurfio â'r ATRm.

21. Fodd bynnag, gall hyn gynnig lefel is o ddiogelwch i iechyd pobl a'r amgylchedd nag Opsiwn 1, oherwydd ei fod yn cadw'r bylchau dwy flynedd rhwng y dyddiadau cau ar gyfer cofrestru. O'i gymharu ag Opsiwn 1, mae hyn yn ymestyn y cyfnod cyffredinol a ddarperir i gwmnïau gyflwyno'r wybodaeth ofynnol.

22. **Opsiwn 3** - Symud y dyddiad cau cyntaf ar gyfer cyflwyno dwy flynedd a hanner i fis Ebrill 2029, yr ail un flwyddyn a hanner i fis Ebrill 2030, a'r trydydd o chwe mis i fis Ebrill 2031.

23. Mae'r opsiwn hwn yn symud y dyddiad cau cyntaf ar gyfer cyflwyno, sef 27 Hydref 2026, o ddwy flynedd a hanner i 27 Ebrill 2029, yr ail ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno o flwyddyn a hanner i 29 Ebrill 2030, a'r trydydd o chwe mis i 28 Ebrill 2031.

24. Mae Opsiwn 3 yn cyflwyno bylchau blwyddyn o hyd rhwng y dyddiadau cau ar gyfer cofrestru, fel gydag Opsiwn 1, ond o dan Opsiwn 3 byddai'r data'n cael ei gyflwyno i'r HSE 6 mis yn gynharach ym mhob categori (h.y. ym mis Ebrill yn hytrach na mis Hydref) fel y dangosir yn Nhabl 5, isod.

**Tabl 5:** Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno cofrestriadau yn y DU o dan Opsiwn 3

| Dyddiad Cau Presennol | Opsiwn 3 | Tunelledd | Priodweddau Peryglus |
|---|---|---|---|
| 27 Hydref 2026 | 27 Ebrill 2029 (+2 flynedd a hanner) | 1,000 tunnell neu fwy y flwyddyn | • Carsinogenaidd, mwtagenig neu wenwynig ar gyfer atgynhyrchu (CMRs) - 1 tunnell neu fwy y flwyddyn<br>• Gwenwynig iawn i organebau dyfrol (acíwt neu gronig) - 100 tunnell neu fwy y flwyddyn<br>• Sylweddau SVHC ar y rhestr ymgeiswyr cyn |
| 27 Hydref 2028 | 29 Ebrill 2030 (+1 blwyddyn a | 100 tunnell neu fwy y flwyddyn | • Sylweddau SVHC ar y rhestr ymgeiswyr cyn 29 Ebrill 2030 |
| 27 Hydref 2030 | 28 Ebrill 2031 (+ chwe mis) | 1 tunnell neu fwy y flwyddyn | |

25. Mae gan yr opsiwn hwn gryfderau tebyg i Opsiwn 1. O'i gymharu ag Opsiwn 1, y prif wahaniaeth yw bod yr opsiwn hwn yn tybio y byddai angen cyfnod pontio o lai na dwy flynedd ar y nifer cymharol fach o gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r terfyn amser cyntaf. Mae'r cyfuniad o ddyddiad cyflwyno cyntaf cynharach o'i gymharu ag Opsiwn 1, ynghyd â'r un bylchau o flwyddyn ag Opsiwn 1, yn golygu mai Opsiwn 3 sy'n darparu'r cyfnod cofrestru cyffredinol byrraf.

26. Mae'r cyfiawnhad dros gael bylchau amser o flwyddyn yn Opsiwn 3 yr un fath â'r cyfiawnhad sy'n berthnasol i Opsiwn 1.

## Cynulleidfa

27. Ymgynghoriad cyhoeddus yw hwn, ac rydym yn croesawu pob barn. Y brif gynulleidfa yw'r rheini a fydd yn rhan o'r broses gofrestru, gan gynnwys y diwydiant cemegol, defnyddwyr cemegau eilaidd a rhanddeiliaid. Rydym hefyd yn croesawu safbwyntiau cyrff anllywodraethol a phartïon eraill â diddordeb. Cyflwynir y cwestiynau mewn ffordd sy'n darparu ar gyfer cynulleidfa gyffredinol a rhanddeiliaid sydd â gwybodaeth arbenigol am reoleiddio cemegau.

## Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

28. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy'r dulliau canlynol:

    Ar-lein, gan ddefnyddio hyb ymgynghori Citizen Space yn Defra. Er hwylustod dadansoddi, byddai ymatebion drwy lwyfan Citizen Space yn cael eu ffafrio, os yn bosibl, ond darperir opsiynau eraill isod os oes angen:

    **Drwy anfon neges e-bost at:** UKREACHextension@defra.gov.uk
    **Drwy'r post:**
    UK REACH Legislation and Policy team,
    Defra Ground Floor, Seacole Building,
    2 Marsham Street,
    London, SW1P 4DF

## Hyd

29. Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 8 wythnos. Agorodd yr ymgynghoriad ar 14 Gorffennaf 2025) a daw i ben ar 8 Medi 2025. Sylwch, rhaid i unrhyw ymatebion sy'n cael eu hanfon drwy'r post gyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, 8 Medi 2025, er mwyn cael eu cyfrif. Efallai na fydd ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu dadansoddi.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

30. Ar ôl yr ymgynghoriad, cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar wefan y llywodraeth yn www.gov.uk/defra. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hadolygu a'u hystyried wrth ddatblygu polisi'r rheoliadau yn y dyfodol.

31. Efallai bydd gwybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill, neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth, e.e. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR) a Deddf Diogelu Data 2018.

## Cydymffurfio ag egwyddorion yr ymgynghoriad

32. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â'r Egwyddorion Ymgynghori a nodir yng nghanllawiau'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance.

    Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw at:
    Drwy e-bost: consultation.coordinator@defra.gov.uk
    Neu'n ysgrifenedig:
    UK REACH Policy and Legislation Team, Defra
    Seacole Building
    2 Marsham Street
    London
    SW1P 4DF

## Amdanoch chi

33. Bwriad y cwestiynau isod yw adlewyrchu'r amrywiaeth hon a rhoi eich ymatebion mewn persbectif â rhai ymatebwyr eraill.

**Gwybodaeth am Gyfrinachedd a Diogelu Data**

34. Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar wefan y llywodraeth yn: www.gov.uk/defra. Bydd atodiad i'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

35. Gall Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn i sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd, heb eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat (er enghraifft, cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, ac ati).

36. Os ydych yn clicio 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech chi ei gadw'n gyfrinachol, ac egluro'ch rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm dros hyn yw y gall gwybodaeth mewn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael ei rhyddhau i'r cyhoedd neu i bartïon eraill yn unol â'r gyfraith mynediad at wybodaeth (Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIRs), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) yw'r rhain yn bennaf). Mae gennym ddyletswyddau, yn bennaf o dan yr EIRs, FOIA a DPA, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau.

37. Oherwydd hyn, byddai eich esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer y cyfan neu ran o'ch ymateb yn ein helpu i gydbwyso'r dyletswyddau hyn ar gyfer datgelu yn erbyn unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd. Os byddwn yn cael cais am yr wybodaeth a roesoch yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn rhoi ystyriaeth

Iawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd eich ymateb, ond ni allwn warantu y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

38. Os byddwch yn clicio 'Na' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond ni fyddwn yn cyhoeddi eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat.

**Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth**

39. Efallai y bydd adegau pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gyda dadansoddwyr allanol. Mae hyn at ddibenion dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion yn unig.

40. Mae sut rydym ni'n defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad ac yn hysbysiad preifatrwydd yr ymarfer galw am dystiolaeth, sydd ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/defras-consultations-and-call-for-evidence-exercises-privacy-notice

**Gwybodaeth Arall**

41. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet, sydd ar gael yn: Microsoft Word - Consultation Principles (1).docx (publishing.service.gov.uk)'

# Rhan 2 - Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Cyfrinachedd a rhai manylion amdanoch chi

**1.** Hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol? (gofynnol)

- ○ Hoffwn
- ○ Na

*Os mai 'Hoffwn' oedd eich ateb i'r cwestiwn hwn, nodwch eich rheswm.*

**2.** Beth yw eich enw?

**3.** Beth yw eich cyfeiriad e-bost?
*Os byddwch yn nodi eich cyfeiriad e-bost, byddwch yn cael e-bost cydnabod yn awtomatig pan fyddwch yn cyflwyno eich ymateb.*

**4.** Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad?

- ○ Unigolyn
- ○ Sefydliad

**5.** Ar ran pa fath o sefydliad ydych chi'n ymateb?

- ○ Corff llywodraethol

- ○ Corff anllywodraethol (NGO)
- ○ Awdurdod lleol
- ○ Elusen
- ○ Ymgynghoriaeth
- ○ Busnes bach neu ficro (llai na 50 o weithwyr, gan gynnwys unrhyw weithrediadau byd-eang)
- ○ Busnes canolig (50 i 249 o weithwyr, gan gynnwys gweithrediadau byd-eang)
- ○ Busnes mawr (250 neu fwy o weithwyr, gan gynnwys gweithrediadau byd-eang)
- ○ Cymdeithas fasnach
- ○ Cymdeithas diwydiant
- ○ Arall

*Os mai 'Arall' oedd eich ateb, nodwch y math o sefydliad.*

**6.** Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, beth yw enw'r sefydliad?

**7.** Ar gyfer sefydliadau sydd â chyfrifoldebau cyfreithiol o ganlyniad i REACH y DU, beth yw eich rôl? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ○ Cynrychiadol yn Unig (OR)
- ○ Gwneuthurwr sylweddau
- ○ Mewnforiwr sylweddau a/neu gymysgeddau o'r UE neu Ardal Economaidd Ewrop (AEE)
- ○ Mewnforiwr sylweddau a/neu gymysgeddau o Ogledd Iwerddon
- ○ Mewnforiwr sylweddau a/neu gymysgeddau o Weddill y Byd (RoW)

- ○ Allforiwr sylweddau o Brydain Fawr i'r UE neu AEE
- ○ Allforiwr sylweddau o Brydain Fawr i RoW
- ○ Defnyddiwr sylweddau cemegol eilaidd (cwmnïau sy'n trin sylweddau cemegol yn uniongyrchol wrth gyflawni eu gweithgareddau busnes ac nad ydynt eu hunain yn wneuthurwr neu'n fewnforiwr y sylweddau ym Mhrydain Fawr)
- ○ Ddim yn berthnasol
- ○ Arall, nodwch:

# Cwestiynau am yr Opsiynau Polisi

**8.** Rhowch yr opsiynau canlynol yn nhrefn eich dewis, gydag 1 yn golygu'r un rydych chi'n ei ffafrio fwyaf a 4 yn golygu'r un rydych chi'n ei ffafrio leiaf:

**Dewisiadau**

- Gwneud dim
- Opsiwn 1
- Opsiwn 2
- Opsiwn 3

*Esboniwch y rhesymau dros eich dewisiadau, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar gryfderau neu wendidau opsiynau penodol.*

**9.** Ticiwch pa un o'r bandiau tunelledd sy'n berthnasol i'ch busnes chi.

- ○ 1,000 tunnell neu fwy y flwyddyn
- ○ 100 tunnell neu fwy y flwyddyn
- ○ 10 tunnell neu fwy y flwyddyn

○ Y cyfan

○ Amherthnasol

**10.** Yn eich barn chi, pa effaith fyddai'r opsiwn rydych chi'n ei ffafrio ar gyfer ymestyn y dyddiadau cau yn ei chael ar nod REACH y DU o sicrhau lefel uchel o ddiogelwch ar gyfer iechyd pobl a'r amgylchedd?

*Esboniwch isod os gwelwch yn dda*

**11.** Rhowch safbwyntiau a thystiolaeth am unrhyw effaith o ran cost, naill ai i'r diwydiant cemegol neu i ddefnyddwyr, nad ydynt wedi'u nodi uchod, o ran ymestyn y dyddiadau cau wrth i'r polisi ATRm gael ei gwblhau.

## Ymestyn y dyddiadau cau ar gyfer dewis 20% o'r ffeiliau at ddiben gwirio cydymffurfiad o dan Erthygl 41(5) o REACH y DU

**12.** Ydych chi'n cytuno â chynnig y llywodraeth, fel y nodir ym mharagraff 9 o Ran 1, i symud y dyddiadau cau presennol ar gyfer gwiriadau cydymffurfio fel eu bod yn cyd-fynd â'r dyddiadau cau arfaethedig ar gyfer cyflwyno?

○ Ydw

○ Nac ydw

*Esboniwch y rhesymau dros eich ateb*

**13.** Beth yw eich barn am sut y dylid trefnu'r gwiriadau cydymffurfio mewn perthynas â'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno?

*Esboniwch y rhesymau dros eich ateb*

**14.** A oes unrhyw bwyntiau, ystyriaethau neu bryderon ychwanegol yr hoffech eu codi nad ydynt wedi cael sylw yn eich ymatebion uchod?